Arweiniad ar Arolygiadau Ardal (gan gynnwys arweiniad ar arolygu Llwybrau Dysgu 14-19 mewn ardaloedd awdurdodau lleol)

Chwefror 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL.
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys **Tudalen**

1 Cyflwyniad **1**

1.1 Nod yr arweiniad 1
1.2 Sail gyfreithiol arolygu 1

2 Cynnal arolygiadau **3**

2.1 Cyflwyniad 3
2.2 Sut bydd arolygwyr yn ymddwyn 3
2.3 Arolygiadau ardal 6
2.4 Y tîm arolygu 6
2.5 Cyn yr arolygiad 8
2.6 Yn ystod yr arolygiad 9
2.7 Ar ôl yr arolygiadau 11
2.8 Sicrhau ansawdd arolygiadau 12

3 Defnyddio meini prawf arolygu (fel sy'n berthnasol i Lwybrau Dysgu 14-19) **14**

Cyd-destun (ar gyfer pob arolygiad ardal) 15

Safonau 16
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 16

Ansawdd addysg a hyfforddiant 18
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 18
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 20
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 24

Arweinyddiaeth a rheolaeth 28
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 28
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 31
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 33

Argymhellion 35

Crynodeb 35

Atodiadau

1. Protocol ac arweiniad i enwebeion
2. Rhwydweithiau 14-19

Byrfoddau

CCC	–	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SG	–	Y Swyddfa Gymreig
AALl	–	awdurdod addysg lleol
AAA	–	angen addysgol arbennig
CC	–	Cwricwlwm Cenedlaethol
TGAU	–	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
TAG	–	Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Safon Uwch	–	TAG lefel uwch
Lefel UG	–	TAG lefel uwch gyfrannol
CGCC	–	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol
CGC	–	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol
TAAU	–	Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch
AB	–	Addysg Bellach
PPI	–	Partneriaeth Pobl Ifanc

Diffiniad o'r termau a ddefnyddir yn yr arweiniad hwn

Darparwr: ysgol, coleg, darparwr hyfforddiant, sefydliad gwirfoddol, cwmni gyrfaoedd, Canolfan byd gwaith, gwasanaethau ieuenctid, AALlau a SAUau.

Profiadau dysgu: y cwricwlwm, rhaglenni gwaith, cyrsiau unigol a gweithgareddau eraill wedi'u cynllunio.

Dysgwr: plentyn, disgybl, myfyriwr, cleient, cyfranogwr a hyfforddai.

Sut i gael cyhoeddiadau Estyn

Mae cyhoeddiadau Estyn y mae'r arweiniad hwn yn cyfeirio atynt ar gael ar wefan Estyn yn **www.estyn.gov.uk** neu oddi wrth Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW. Rhif ffôn Estyn yw 029 20 446446.

Gwefannau defnyddiol eraill

Llywodraeth Cynulliad Cymru: **www.wales.gov.uk**

1 Cyflwyniad

1.1 Nod yr arweiniad

Mae'r arweiniad hwn yn egluro sut bydd arolygwyr yn cymhwyso Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru i arolygiadau ardal.

Mae'r arweiniad hwn mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf ar gynnal arolygiadau yn berthnasol i bob arolygiad ardal. Mae'r ail ran ar ddefnyddio meini prawf arolygu yn berthnasol i arolygiadau ardal sy'n ymwneud â Llwybrau Dysgu 14-19 mewn un ardal awdurdod lleol. Ar hyn o bryd ac yn y dyfodol rhagweladwy, bydd arolygiadau ardal Estyn yn canolbwyntio ar Lwybrau Dysgu 14-19.

1.2 Sail gyfreithiol yr arolygiad

Cynhelir arolygiadau ardal o dan adran 83 Deddf Addysg a Medrau 2000 (y Ddeddf) fel y'i diwygiwyd gan Adran 178, Deddf Addysg 2002 a Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005. Os gofynnir hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol, mae hwn yn datgan bod yn rhaid i Brif Arolygydd Cymru arolygu:

- ansawdd ac argaeledd disgrifiad penodol o addysg a hyfforddiant, mewn ardal benodol o Gymru, ar gyfer pobl sy'n 15[1] oed neu'n hŷn;
- y safonau a gyflawnir gan y rheiny sy'n cael yr addysg neu'r hyfforddiant hwnnw; ac
- a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rheiny sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian.

Gall Prif Arolygydd Cymru gynnal arolygiadau o'r fath, heb iddo/iddi gael ei ofyn i wneud.

Os oes unrhyw adnoddau ariannol wedi cael eu cyflwyno gan y Cynulliad Cenedlaethol neu awdurdod addysg lleol (AALl) mewn perthynas â'r addysg neu'r hyfforddiant sy'n cael eu harolygu o dan yr adran hon, gall yr arolygiad ymestyn i ystyried y modd y mae'r adnoddau hynny wedi cael eu defnyddio ac a chawsant eu defnyddio mewn modd sy'n rhoi gwerth am arian.

Gall unrhyw addysg neu hyfforddiant sy'n cael ei wneud yn destun arolygiad ardal fod yn unrhyw addysg a hyfforddiant sy'n dod o dan gylch gwaith Prif Arolygydd Cymru.

[1] Mae Adran 83 (11) yn darparu y bydd 'personau sy'n 15 oed' yn cynnwys personau y darperir addysg iddynt mewn ysgol a fydd yn cyrraedd yr oedran hwnnw yn y flwyddyn ysgol honno.

Rhaid i unrhyw ddarparwr addysg a hyfforddiant sy'n destun arolygiad ardal roi'r cyfryw wybodaeth y gall Brif Arolygydd Cymru wneud cais rhesymol amdani mewn perthynas â'r arolygiad.

Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ac unrhyw AALl yn yr ardal sy'n destun arolygiad ardal ddarparu'r cyfryw wybodaeth y gall Brif Arolygydd Cymru wneud cais rhesymol amdani mewn perthynas â'r arolygiad.

Gall y Cynulliad Cenedlaethol, yn sgil rheoliadau, wneud darpariaeth bellach o ran y goblygiad a osodir gan yr Adran hon i ddarparu gwybodaeth.

Wrth gwblhau arolygiad ardal, mae'n rhaid i Brif Arolygydd Cymru lunio adroddiad ysgrifenedig.

Mae Adran 84 y Ddeddf yn rhoi'r grym i'r Cynulliad Cenedlaethol orfodi AALl y daw ei ardal o fewn yr ardal a drafodir gan yr adroddiad yn llwyr neu'n rhannol i baratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yng ngolau'r adroddiad adolygiad ardal a gyhoeddir gan y Prif Arolygydd. Mae'n rhaid i'r datganiad ddweud pryd y bydd y camau arfaethedig yn cael eu cymryd. Wrth baratoi datganiad o'r fath, mae'n rhaid i'r AALl ymgynghori â'r cyfryw bobl y gall y Cynulliad Cenedlaethol eu cyfarwyddo. Mae'n rhaid i'r cynllun gweithredu gael ei gyhoeddi o fewn 50 diwrnod fel y mae rheoliad 4 o Reoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) ac a ddiwygiwyd gan Reoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) 2004 yn ei ragnodi. Bydd Estyn yn arfarnu'r cynllun gweithredu ac yn ei gymeradwyo os yw'n mynd i'r afael yn glir â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad ac yn nodi sut bydd y gwelliant yn cael ei gyflawni. Gall Estyn hefyd ofyn i ddarparwyr penodol baratoi camau gweithredu mewn perthynas â materion sy'n gyfrifoldeb iddynt. Rhaid i'r AALl gopïo cynlluniau gweithredu i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Adran 85 y Ddeddf yn cynnwys darpariaeth y gall y Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo Prif Arolygydd Cymru i gynnal arolygon Cymru-gyfan neu arolygon o feysydd penodol yng Nghymru, ar faterion sy'n gysylltiedig â pholisi ar addysg a hyfforddiant ôl-16, neu astudiaethau cymharol y tu allan i Gymru. Mae gan y Prif Arolygydd rym hefyd i gynnal arolygon o'r fath heb gael cyfarwyddyd i wneud hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn ogystal ag unrhyw geisiadau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu gwneud, mae Adran 82 y Ddeddf yn galluogi'r Prif Arolygydd, ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arolygiaeth Dysgu Oedolion yn Lloegr, i arolygu ac adrodd ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant a wneir yng Nghymru yn unol â'r trefniadau a wneir gan adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth addysg a hyfforddiant a wneir o dan y Fargen Newydd.

2 Cynnal arolygiadau

2.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi arweiniad ar reoli a chynnal arolygiadau ardal yn unol â'r gofynion a nodir yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae wedi'i osod mewn modd sy'n adlewyrchu trefn y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl yr arolygiad.

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am gynnal ac am reoli'r arolygiad, ac am yr adroddiad arolygu. Tra bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio ar rôl yr arolygydd cofnodol, mae'n bwysig bod holl aelodau'r tîm yn ymwybodol o'r gofynion arolygu ac yn cydymffurfio â hwy.

2.2 Sut bydd arolygwyr yn ymddwyn

Dylech gynnal y safonau gorau posibl yn eich gwaith. Mae'r Fframwaith Arolygu Cyffredin yn gofyn eich bod yn dilyn cod ymddygiad a gynlluniwyd i sicrhau cydweithrediad a hyder y sawl sy'n cael eu harolygu.

Byddwch yn cyflawni eich gwaith gydag integredd, cwrteisi a sensitifrwydd dyladwy

Wrth wneud hynny, dylech:

- gynnal arolygiadau'n effeithiol ac yn effeithlon;
- fod wedi paratoi'n drylwyr;
- drin pobl aelod staff gyda chwrteisi, parch a sensitifrwydd;
- achosi'r tarfu a'r straen lleiaf; a
- sicrhau cysylltiadau gwaith cadarnhaol drwy gydol yr arolygiad.

Byddwch yn arfarnu gwaith y darparw(y)r mewn ffordd wrthrychol

Wrth wneud hynny, dylech:

- gynnal eich gwaith yn annibynnol ac yn wrthrychol;
- ymgymryd ag arolygiadau yn ddiduedd a heb ragdybiaethau;
- gadw'r galwadau am wybodaeth a deunyddiau eraill i leiafswm realistig;
- casglu tystiolaeth gadarn o amrywiaeth o ffynonellau a'i phwyso a mesur yn ofalus; ac

- arfarnu yn ôl y meini prawf yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r arweiniad a roddir yn y fan hon.

Byddwch yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd

Wrth wneud hynny, dylech:

- fod yn ddiduedd a chael eich gweld yn bod yn ddiduedd;
- adrodd eich canfyddiadau heb bryder na ffafr, gan nodi ac adrodd am nodweddion da a gwendidau;
- nodi ac adrodd am faterion anodd y mae angen eu datrys fel y gall y darparw(y)r wella;
- gwneud yn siŵr bod yr adroddiad cyhoeddedig yn adlewyrchu gwaith y darparw(y)r mewn modd teg a chyfiawn; a
- gwneud yn siŵr bod adborth llafar yn gyson â'r adroddiad ysgrifenedig terfynol.

Byddwch yn cyfathrebu mewn ffordd eglur ac yn agored

Wrth wneud hynny, dylech:

- fod yn agored ac yn dryloyw yn eich trafodaeth â'r rheiny sy'n gysylltiedig â'r arolygiad;
- rhoi gwybod yn gyson i reolwyr am faterion sy'n dod i'r amlwg ac am ganfyddiadau;
- gwneud yn siŵr bod cyfathrebu'n effeithiol drwy gydol yr arolygiad ac yn enwedig yn ystod adborth llafar; a
- gwneud yn siŵr bod gwybodaeth gymhleth a barnau nad oes croeso iddynt o bosibl yn glir ac mor gyraeddadwy ag y bo modd.

Byddwch yn gweithredu er lles pennaf dysgwyr

Wrth wneud hynny, dylech:

- wneud dim a all achosi gofid neu bryder i ddysgwr;
- wneud dim sy'n codi cwestiynau am eich perthynas chi gyda dysgwr;
- adrodd unrhyw bryderon am les dysgwr i'r awdurdod priodol; ac
- atal rhag ymyrryd yn bersonol.

Byddwch yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth a dderbynnir yn ystod yr arolygiad

Wrth wneud hynny, byddwch:

- yn sicrhau cyfrinachedd yr holl wybodaeth a dderbynnir yn ystod yr arolygiad;
- yn gwneud yn siŵr bod canfyddiadau'r arolygiad yn gyfrinachol i'r tîm ac i'r darparw(y)r nes bod yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi; a
- pheidio â gofyn am neu'n ceisio cael gwybodaeth gyfrinachol am werthusiadau staff.

Datgelu gwybodaeth

Mae Estyn yn ymrwymo i wneud ei fusnes mor agored â phosibl. Mae'n ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth a wneir gan y cyhoedd oni bai bod rhesymau cyfreithiol clir dros beidio â gwneud hynny neu fod modd dangos yn glir na fyddai hynny er lles y cyhoedd.

Mae gan unigolion eisoes hawl statudol i gael mynediad i'w gwybodaeth bersonol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae data personol yn cynnwys unrhyw fynegiant o farn am unigolyn ac unrhyw awgrym o fwriadau unrhyw berson ynghylch yr unigolyn. O ran arolygiadau, mae hyn yn golygu bod gwybodaeth am hyfforddiant neu hyfforddwyr yn ddata personol hyd yn oed cyn ei fod ef neu hi'n cael ei enwi oherwydd mae'n debygol y bydd yr arolygiad yn cynhyrchu gwybodaeth arall fydd yn eu hadnabod.

O fis Ionawr 2005, mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ymestyn yr hawl i fynediad i bob math o wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus, boed yn wybodaeth bersonol neu beidio. Gall unrhyw un, lle bynnag yn y byd, arfer eu hawl i fynediad i wybodaeth y mae awdurdodau lleol yn ei chadw. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus a'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau iddynt.

Y gofyniad sylfaenol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yw'r hawl mynediad i wybodaeth gofnodedig y mae awdurdodau cyhoeddus yn ei chadw. Mae hyn yn rhoi 'effaith ôl-weithredol' a bydd yn rhaid i Estyn sicrhau bod y wybodaeth y mae'n ei chadw ar gael, ac nid gwybodaeth o reidrwydd a grëwyd ar ôl dod â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym.

Gan y bydd y wybodaeth wreiddiol a geir yn ystod arolygiad yn eiddo i Estyn, bydd yn delio ag unrhyw geisiadau o dan y Deddfau ac yn penderfynu pa wybodaeth y dylid ei rhyddhau. Yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'n rhaid i Estyn roi gwybod i unrhyw berson sy'n gwneud cai am wybodaeth os yw'r wybodaeth honno'n cael ei chadw, ac os felly, darparu'r wybodaeth honno.

Dylech fod yn ymwybodol y gall ceisiadau am ddatgelu gwybodaeth a wneir o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gael eu gwneud am wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn tystiolaeth arolygu, llythyron a negeseuon e-bost. Gall unrhyw sylw rydych chi'n ei wneud fod yn destun archwilio ehangach os

yw person yn gwneud cais i weld y wybodaeth honno. Rhaid i chi felly sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chofnodi mewn modd gwrthrychol a bod modd cefnogi'r holl sylwadau petai angen eu datgelu.

2.3 Arolygiadau ardal

Gall arolygiadau ardal ganolbwyntio ar y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 oed a hŷn mewn ardal awdurdod lleol penodol, o fewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol, neu o fewn rhan o awdurdod lleol. Gallant ganolbwyntio ar yr holl ddarpariaeth mewn unrhyw ardal neu ar wahanol agweddau arno. Gallant hefyd ganolbwyntio ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp oedran penodol sy'n hŷn na 14 mlwydd oed.

Mae arolygiadau ardal yn ystyried nid yn unig y darparwyr addysg a hyfforddiant unigol yn ardal yr arolygiad, ond hefyd o'r cynllunio strategol, yr arweinyddiaeth, y rheolaeth a'r cyflwyno yn gyffredinol ar lefel yr ardal. Bydd arolygwyr yn arfarnu pa mor effeithiol y mae'r strategaeth addysg a hyfforddiant leol o ran codi lefelau cyflawniad, sicrhau llwyddiant dysgwyr a chynyddu cyfranogiad gan ddysgwyr.

Nid yw arolygiadau ardal yn disodli arolygiadau eraill gan Estyn sy'n digwydd fel rhan o gylchoedd arolygu sefydledig, neu waith thematig neu waith arolwg arall. Bydd Estyn yn defnyddio tystiolaeth a ddaw o'r rhain, lle mae ar gael, i osgoi gorlwytho darparwyr lle bynnag y bo modd.

Bydd darparwyr mewn ardal sy'n cael ei dewis i'w harolygu fel arfer yn cael rhwng tri a chwe mis o rybudd. Bydd y rhybudd hwn yn cael ei roi i'r darparwyr, i Lywodraeth Cynulliad Cymru, i'r awdurdod lleol a/neu'r AALl, fel y bo'n briodol.

Bydd arolygwyr yn defnyddio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin, arweiniad arolygu sy'n berthnasol i'r sectorau sy'n cael eu hadolygu ac unrhyw arweiniad penodol ychwanegol, fel y bo'n briodol. Lle bo angen, bydd hyn yn cael ei ategu gan fwy o arweiniad yn ymwneud â'r pwnc penodol sy'n cael ei arolygu.

2.4 Y tîm arolygu

Bydd cynnwys a maint y timau yn ddibynnol ar natur a graddfa'r gwaith sy'n cael ei arolygu. Bydd gan y tîm ystod o arbenigeddau sy'n briodol i'r dasg.

Yr arolygydd cofnodol

Mae'r arolygydd cofnodol yn rheoli'r tîm arolygu a'r broses arolygu gyfan, a dyma'r pwynt cyfeirio cyntaf ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r arolygiad.

Fel arolygydd cofnodol, dylech:

- arwain a rheoli'r arolygiad;
- sefydlu hinsawdd lle mae pawb sy'n gysylltiedig yn gwerthfawrogi'r arolygiad;
- cynnal cysylltiadau effeithiol â darparwyr neu eu cynrychiolwyr;

- cynllunio'r arolygiad, dyrannu cyfrifoldebau i'r tîm a briffio'r tîm yn llawn am yr ardal a'r pwnc i'w arolygu;

- monitro gwaith y tîm, cadeirio cyfarfodydd y tîm, a sicrhau bod aelodau'r tîm yn casglu ac yn arfarnu digon o dystiolaeth;

- sicrhau bod y tîm yn llunio barnau corfforaethol cadarn;

- goruchwylio trefniadau adborth llafar ac ysgrifennu'r adroddiad terfynol; a

- sicrhau ansawdd yr arolygiad.

Aseswyr cymheiriaid

Ni fydd asesydd cymheiriaid ar dîm arolygu arolygiadau ardal. Y rheswm am hynny yw y bydd yr arolygiad yn tynnu ar dystiolaeth o arolygiadau darparwyr unigol a byddai asesydd cymheiriaid wedi bod ynghlwm wrth yr arolygiadau hyn lle'r oeddent ar gael.

Yr enwebai

Cyn yr arolygiad, bydd yr arolygydd adrodd yn gofyn i bob darparwr enwebu uwch aelod o staff i weithredu fel person cyswllt ar gyfer yr arolygiad. Bydd yr arolygydd cofnodol yna'n gofyn i'r darparwyr fel grŵp i enwebu person, yr enwebai, a fydd yn cysylltu â'r unigolion hyn a'r arolygydd cofnodol, ac yn ymuno â'r tîm arolygu.

Dylai'r enwebai:

- sicrhau bod yr arolygwyr yn cael gwybodaeth lawn am gyd-destun yr ardal a'r pwnc a arolygir;

- cysylltu â'r arolygydd cofnodol am agweddau gweinyddol ar yr arolygiad;

- cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm;

- ymateb i geisiadau'r tîm am wybodaeth ychwanegol;

- helpu i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi;

- cymryd rhan mewn casglu tystiolaeth, lle bo hynny'n briodol ac y cytunwyd arno; a

- chlywed canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r rôl yn gofyn bod yr enwebai yn arfer y gwrthrychedd sy'n briodol i broses arolygu allanol. Bydd gofyn i'r enwebai barchu cyfrinachedd lem holl drafodaethau'r arolygiad. Nid rôl eiriolwr neu amddiffynnydd yr ardal mohoni. Bydd union natur y rôl yn cael ei chytuno cyn pob arolygiad. Pan fydd y rôl wedi cael ei chytuno, mae'n rhaid i'r arolygydd cofnodol, uwch gynrychiolydd o'r ardal a'r enwebai lofnodi

datganiad o gytundeb. Yn Atodiad 1, cewch weld protocol ac arweiniad ar gyfer rôl yr enwebai, gan gynnwys y datganiad o gytundeb.

2.5 Cyn yr arolygiad

Mae'r arolygydd cofnodol yn cynnal y prif weithgareddau yr ymgymerir â hwy cyn yr arolygiad. **Mae gweddill yr adran hon yn sôn am y gwaith y mae'n rhaid i'r arolygydd cofnodol ei wneud yn ystod y rhan hon o'r broses.**

Paratoi cychwynnol

Dylech wahodd y darparwyr i enwi'r enwebai. Pan fydd wedi cael ei enwi, dylech gysylltu â'r enwebai cyn gynted ag y bo modd i esbonio cwmpas a fformat yr arolygiad. Bydd angen i chi hefyd sefydlu unrhyw drefniadau angenrheidiol ar gyfer yr arolygiad, er enghraifft:

- gwneud cais am dystiolaeth a'i chasglu, gan gynnwys adroddiadau hunanarfarnu;
- trefnu cyfarfodydd cyn ac yn ystod yr arolygiad; a
- materion gweinyddol, fel mannau gweithio a threfniadau cadw tŷ.

Dylech fod yn barod i dderbyn unrhyw ddogfennau ychwanegol y mae darparwyr yn yr ardal yn dymuno'u rhoi i chi, er enghraifft dogfennau sy'n cefnogi'r adroddiad hunanarfarnu.

Bydd angen i chi hefyd wneud cais am dystiolaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Gyrfa Cymru, a'i chasglu.

Yn olaf, bydd angen i chi gynnull yr holl dystiolaeth sydd ar gael yn adroddiadau arolygu Estyn am yr holl ddarparwyr yn yr ardal.

Cyfarfodydd cyn yr arolygiad

Tua chwe wythnos cyn yr arolygiad, bydd yr arolygydd cofnodol yn cyfarfod â chynrychiolwyr o'r holl ddarparwyr yn yr ardal benodedig. Mae hyn yn caniatáu i'r arolygydd cofnodol esbonio'r broses arolygu ac i'r darparwyr ofyn am eglurhad ar unrhyw faterion.

Tua'r un adeg hefyd, bydd yr arolygydd cofnodol yn cyfarfod â phersonél allweddol o'r ardal sy'n cael ei harolygu. Byddai hyn fel arfer yn cynnwys pobl fel y cyfarwyddwr addysg, pennaeth y coleg addysg bellach a phrif weithredwr yr awdurdod lleol.

Tua chwe wythnos cyn yr arolygiad, bydd pob darparwyr yn cyflwyno copi o'u hadroddiadau hunanasesu neu hunanarfarnu diweddaraf. Bydd Estyn hefyd yn gofyn am bapur sefyllfa sy'n deillio o drefniadau sicrhau ansawdd mewnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, neu'r AALl, sy'n gosod eu trosolwg cyffredinol eu hunain o'r ddarpariaeth yn y maes addysg sy'n cael ei harolygu. Gall y papur sefyllfa hwn fod ar ffurf adroddiad hunanasesu neu hunanarfarnu. Ar yr adeg hon, bydd yr

arolygydd cofnodol yn cytuno gyda'r enwebai ar sampl o ymweliadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y cyfnod sy'n arwain at yr arolygiad, bydd yr arolygydd cofnodol yn cysylltu â'r enwebai i drafod unrhyw newidiadau i'r sampl, i roi gwybod iddo ef neu iddi hi am y tîm arolygu ac i gasglu tystiolaeth canlyniadau a gasglwyd ar gyfer y maes addysg penodol.

Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Dylech gynllunio gwaith aelodau'r tîm, gan gynnwys yr enwebai. Mae'n bwysig bod gennych ddull ac ymagwedd gorfforaethol.

2.6 Yn ystod yr arolygiad

Yr arolygydd cofnodol

Fel arolygydd cofnodol, dylech:

- gadarnhau bod arolygwyr yn cydymffurfio â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r arweiniad hwn;
- sicrhau sylw priodol o'r ddarpariaeth;
- trefnu ar gyfer casglu, cofnodi ac arfarnu'r dystiolaeth yn effeithiol;
- tynnu llunio ymddangosiadol o'r ddarpariaeth o'r gwaith casglu tystiolaeth i lywio trafodaethau'r tîm a chynorthwyo â sicrhau barnau corfforaethol; a
- nodi problemau'n gynnar a'u datrys yn effeithiol.

Dylech hefyd:

- sicrhau bod yr enwebai yn cael ei gynnwys cymaint ag y bo modd yn yr arolygiad;
- monitro ei waith ef neu hi a rhoi cefnogaeth, fel y bo'n briodol; a
- chyfeirio ceisiadau am wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol drwy'r enwebai.

Arolygwyr tîm

Fel arolygydd tîm, mae angen i chi gynllunio a defnyddio'ch amser yn ofalus ac yn effeithlon i sicrhau'r sylw sydd ei angen. Dylech fod yn sensitif i effaith yr arolygiad. Bydd angen i bob aelod tîm gyfrannu at arolygu agweddau cyffredinol ar y gwaith ynghyd â chyfrannu at arolygu eu sector eu hunain.

Enwebeion

Fel enwebai, dylech ddilyn yr arweiniad ar rôl yr enwebai yn Atodiad un. Dylech ymgymryd ag agweddau ar y rôl yr ydych wedi'i thrafod a chytuno arni.

Y broses arolygu

Mae'r gweithgarwch arolygu yn digwydd mewn tair wythnos. Mae wythnosau un a dau yn wythnosau dilynol. Mae bwlch o ryw wythnos arall cyn wythnos tri. Mae patrwm y gweithgarwch yn ystod y tair wythnos fel rheol fel a ganlyn:

- mae'r wythnos gyntaf yn canolbwyntio'n bennaf ar gymathu ac arfarnu'r dogfennau a'r data, er enghraifft, oddi wrth Estyn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gyrfa Cymru, yr awdurdod lleol, y Rhwydwaith 14-19 a darparwyr unigol;

- mae'r ail wythnos yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfweliadau â phobl eraill a detholiad o ddysgwyr o ystod o ddarparwyr; ac

- mae'r drydedd wythnos ar gyfer mynd ar drywydd unrhyw faterion sy'n weddill, llunio arfarniadau tîm ar y canfyddiadau a rhoi adborth lafar am y canfyddiadau.

Mae trafodaethau gyda dysgwyr yn ffynhonnell allweddol o'u cyflawniadau a'u hagweddau. Dylech gynllunio trafodaethau fel eu bod yn archwilio barnau dysgwyr ar ansawdd y ddarpariaeth a'r gefnogaeth, a'r safonau y maent yn eu cyflawni.

Cyfarfodydd tîm

Prif ddiben y cyfarfodydd tîm yw llunio barn gorfforaethol gywir, ac wedi'i phrofi'n drylwyr, am safonau ac ansawdd. Dylai'r tîm arolygu cyfan gytuno ar farnau cyffredinol sy'n seiliedig ar ddigon o dystiolaeth ddilys a dibynadwy.

Fel arolygydd cofnodol, dylech sefydlu ymdeimlad o ddiben cyffredin a dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau. Dylech roi cyfle i'r tîm:

- drafod materion sy'n dod i'r amlwg;

- ddatrys materion a rhagdybiaethau cyn-arolygiad;

- trafod unrhyw wendidau yn y sail dystiolaeth a phenderfynu sut i gywiro hyn; ac

- ystyried prif ganfyddiadau ac argymhellion yr arolygiad.

Graddio

Byddwch yn defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi'r holl farnau arolygu. Dyma ddiffiniadau'r graddau:

Gradd 1 da gyda nodweddion rhagorol

Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig

Gradd 3 nodweddion da'n gorbwyso diffygion

Gradd 4 rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig

Gradd 5 llawer o ddiffygion pwysig

Rhoi adborth

Tua diwedd trydedd wythnos yr arolygiad, bydd y tîm arolygu yn cynnig adborth llafar am y canfyddiadau i gynrychiolwyr o'r darparwyr yn yr ardal. Mae'n bwysig bod y fformat a'r trefniadau ar gyfer adborth llafar yn cael eu deall yn llawn. Dylech sicrhau bod dealltwriaeth glir o bwy sy'n cael adborth, a phryd.

Ar ôl ymweliadau â darparwr lle cynhaliwyd cyfarfod â dysgwyr, dylech roi adborth cryno i'r darparwr am farn gyffredinol y dysgwyr. Ar wahân i hyn, nid oes angen adborth ar lefel y darparwyr unigol.

Wrth adrodd yn ôl ar ddiwedd arolygiad dylech wneud yn siŵr bod darparwyr yn deall bod modd trafod materion a bod modd egluro materion ffeithiol, ond nid yw barnau'n agored i drafodaeth. Dylid cael cysondeb bob amser rhwng yr arfarniadau sy'n cael eu bwydo'n ôl â'r hyn a fydd yn ymddangos yn yr adroddiad ysgrifenedig.

2.7 Ar ôl yr arolygiad

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am y gweithgareddau sy'n digwydd ar ôl yr arolygiad. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn ymwneud â'r hyn y dylai'r arolygydd cofnodol ei wneud.

Ysgrifennu'r adroddiad arolygu

Rhaid i'r adroddiad arolygu gael ei seilio ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin ac mae'n rhaid iddo fod ar y ffurf ganlynol ar gyfer pob math o arolygiad:

Cyd-destun

Crynodeb

Argymhellion

Safonau
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Ansawdd addysg a hyfforddiant
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Arweinyddiaeth a rheolaeth
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Crynodeb

Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif faterion sy'n codi o'r adroddiad. Mae'n rhaid iddo fod yn gyson â'r testun yng nghorff yr adroddiad a'r adborth llafar.

Argymhellion

Mae'r adran hon yn rhestru'r argymhellion allweddol i'w gweithredu sy'n codi o'r adroddiad. Dylai fod yn gyson â chrynodeb yr adroddiad.

Dylai'r adroddiad:

- fod yn gywir;
- bod yn glir i'w holl ddarllenwyr;
- arfarnu yn hytrach na disgrifio'r hyn a welir;
- canolbwyntio ar y safonau a gyflawnir a'r ffactorau sy'n effeithio ar safonau ac ar ansawdd;
- defnyddio iaith bob dydd, nid jargon addysgol, a bod yn ramadegol gywir;
- bod yn gryno ac yn benodol;
- nodi nodweddion da a diffygion;
- defnyddio enghreifftiau effeithiol sy'n deillio o'r sail dystiolaeth er mwyn sicrhau bod cyffredinoliadau'n ddealladwy a dangos beth y mae gradd benodol yn ei olygu; a
- defnyddio geiriau ac ymadroddion sy'n bywiogi'r adroddiad ac yn cyfleu cymeriad yr ardal a'r pwnc a arolygir.

Dylai fod datganiad clir o'r radd sy'n cael ei dyfarnu ar gyfer pob cwestiwn allweddol. Dylai'r geiriad priodol sy'n cyfateb i un o'r pum diffiniad gradd gyd-fyn â hyn. Dylai'r testun sy'n dilyn adlewyrchu'r radd honno.

Rhaid cynhyrchu adroddiadau o fewn 55 diwrnod gwaith o ddiwrnod olaf yr arolygiad neu o fewn 65 diwrnod lle bo'r adroddiad yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg neu i'r Saesneg.

2.8 Sicrhau ansawdd arolygiadau

Er mwyn sicrhau bod arolygiadau'n cael eu gwella'n barhaus, mae Estyn wedi ymrwymo i:

- ddewis, hyfforddi, briffio, cefnogi a defnyddio arolygwyr yn effeithiol;
- deialog rheolaidd gyda darparwyr yn ystod arolygiad a rôl weithredol yr enwebai;

- meini prawf sy'n cydymffurfio â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin ac arweiniad;
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus;
- adborth llafar cynhwysfawr a diamwys;
- adroddiadau sy'n gyson glir, cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda; a
- chynnal gweithgareddau cymedroli mewnol a gwella ansawdd priodol, gan gynnwys monitro arolygiadau'n achlysurol.

Rydym wedi ymrwymo i welliant parhaus mewn arolygiadau. I alluogi darparwyr i roi sylwadau ar broses yr arolygiad, byddwn yn estyn gwahoddiad iddynt lenwi holiadur ar ôl yr arolygiad.

Dylai darparwyr godi unrhyw bryderon am arolygiad gyda'r arolygydd cofnodol yn ystod yr arolygiad. Os na ellir datrys pryderon yn y modd hwn, yna dylai'r darparwr ysgrifennu at PAEM yn gofyn i'r gŵyn gael ei hystyried ymhellach. Mae taflen sy'n egluro gweithdrefnau cwyno ac apelio ar gael oddi wrth Estyn.

3 Defnyddio'r meini prawf arolygu (fel y maent yn berthnasol i Lwybrau Dysgu 14-19)

Rydym yn gosod isod ychydig o arweiniad ychwanegol a fydd yn ymddangos mewn arolygiadau ardal. Bydd yr adran ar y cyd-destun yr un fath ar gyfer pob arolygiad ardal, ond bydd y manylion ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol yn amrywio yn ôl y pwnc sy'n cael ei arolygu. Gan y bydd arolygiadau ardal Estyn am y dyfodol agos a rhagweladwy yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth i fyfyrwyr 14 i 19 oed mewn un ardal awdurdod lleol, mae'r arweiniad hwn yn disgrifio'r materion ychwanegol y mae angen eu harfarnu ac adrodd amdanynt ar gyfer y pwnc penodol hwnnw.

Fformat yr arweiniad ar gyfer defnyddio'r meini prawf

Mae arolygiadau'n canolbwyntio ar saith cwestiwn allweddol ac yn adrodd arnynt. Mae'r rhain yn llunio sail y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Mae gweddill yr adran hon yn seiliedig ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae llawlyfr arweiniad manwl ar gyfer pob sector sy'n disgrifio sut bydd y Fframwaith Arolygu Cyffredin yn cael ei gymhwyso i'r sector perthnasol.

Er cyfleustra, rydym yn cynnwys detholiad o'r Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer pob un o'r saith cwestiwn. Mae hyn wedi cael ei drefnu mewn tabl. Ar yr ochr chwith, rydym wedi rhestru agweddau ar y ddarpariaeth a fydd yn cael ei harfarnu a'i hadrodd arni. Ar yr ochr dde, rydym wedi disgrifio'r meini prawf yn seiliedig ar arfer dda. Nid ydynt yn ofynion adrodd ond maent yn cynnig ystod o nodweddion sy'n eich helpu chi i lunio'ch barnau. Dyma sut mae'r tabl yn edrych:

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar ……, gan gynnwys:	Wrth lunio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae ……..:
Dyma'r agweddau ar y ddarpariaeth i gael eu harfarnu ac adrodd arnynt.	*Nid gofynion adrodd mo'r meini prawf, ond maent yn ddatganiadau sy'n disgrifio arfer dda. Nid ydynt yn derfynol ac nid ydynt yn berthnasol ym mhob sefyllfa. Dylech eu defnyddio lle bônt yn berthnasol.*

Gan y bydd yr arolygiad ardal yn tynnu ar adroddiadau arolygu presennol, bydd y rhan fwyaf o'r barnau mewn arolygiadau ardal wedi'u seilio ar y llawlyfrau arweiniad presennol ar gyfer y gwahanol sectorau y mae Estyn yn eu harolygu. Gallwch ddod o hyd i'r rhain ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk. Mae'r arweiniad sy'n dilyn yn gosod y **gofynion adrodd** ar gyfer arolygiadau ardal o Lwybrau Dysgu 14-19. Dan y pennawd **defnyddio'r meini prawf**, mae hefyd yn rhoi ychydig o arweiniad pellach ar gyfer arolygu Llwybrau Dysgu 14-19 sy'n ychwanegol at yr arweiniad yn y llawlyfrau arweiniad sector.

Cyd-destun (ar gyfer pob arolygiad ardal)

Dylech roi sylwebaeth ar:

nodweddion cymdeithasol ac economaidd

Dylai hon roi sylwadau am:

- boblogaeth yr ardal, gan gynnwys maint, cyfansoddiad, tueddiadau ac iaith;
- cymwysterau'r boblogaeth;
- nodweddion economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys gwybodaeth o fynegai difreintedd lluosog Llywodraeth Cynulliad Cymru; a
- phatrymau cyflogaeth, gan gynnwys strwythur, maint a lleoliad mentrau.

patrwm y ddarpariaeth

Bydd hyn yn dibynnu ar y pwnc sy'n cael ei arolygu, ond dylai pob adroddiad ddisgrifio natur y ddarpariaeth sy'n cael ei harolygu. Gallai hyn gynnwys sylwebaeth ar:

- nodweddion y dysgwyr;
- ystod, math a maint y darparwyr;
- yr ystod a'r math o ddysgu a ddarperir; ac
- ariannu'r ddarpariaeth.

Cyfranogiad y rheiny sydd rhwng 16 a 19 mlwydd oed mewn addysg a hyfforddiant

Bydd angen i chi roi sylwadau am batrwm y cyfranogiad ôl-16, gan gynnwys awgrym ynghylch ymhle y mae dysgwyr yn cael eu haddysg a'u hyfforddiant.

Fel arolygydd cofnodol, bydd angen i chi gytuno ar yr adran hon gyda'r darparwyr. Lle bo anghytuno am gynnwys yr adran hon, bydd yr arolygydd cofnodol yn gwneud y penderfyniad terfynol am beth i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Mae'r arweiniad sy'n dilyn yn ymwneud yn benodol ag arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y rheiny sydd rhwng 14 a 19 mlwydd oed ym mhob ardal awdurdod lleol. Bydd arolygiadau'n canolbwyntio'n gryf ar weithredu ac effaith Llwybrau Dysgu 14-19 (LlD14-19).[2]

[2] Cyhoeddwyd Arweiniad II Llwybrau Dysgu 14-19 ym mis Ebrill 2006 ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru sef www.cymru.gov.uk

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, gan gynnwys:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae dysgwyr yn:
• **eu llwyddiant o ran cyflawni nodau dysgu cytunedig**	*1.1 cyflawni safonau da o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau;* *1.2 cyflawni targedau a nodau dysgu cytunedig;* *1.3 cyrraedd lefelau priodol mewn medrau allweddol, gan gynnwys cymhwysedd dwyieithog; a* *1.4 llwyddo beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol.* ac i ba raddau y mae: *1.5 canlyniadau a chyfraddau cadw yn cymharu'n dda â'r cyfartaleddau cenedlaethol a meincnodau lleol a chenedlaethol; ac* *1.6 y mae tueddiadau o ran perfformiad yn dangos gwelliant parhaus neu y cynhelir safonau uchel.*
• **eu cynnydd wrth ddysgu**	*1.7 dysgu gwybodaeth neu fedrau newydd, yn datblygu syniadau ac yn cynyddu eu dealltwriaeth;* *1.8 deall yr hyn y maent yn ei wneud, pa mor llwyddiannus yw eu cynnydd a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella; ac* *1.9 yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial a symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf.*
• **datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu**	*1.10 dangos cymhelliant, gweithio'n gynhyrchiol a defnyddio'u hamser yn effeithiol;* *1.11 ymddwyn yn gyfrifol ac yn parchu eraill;* *1.12 cyrraedd lefelau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb;* *1.13 datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol, gan gynnwys y medrau angenrheidiol i gynnal dysgu gydol oes;* *1.14 gwneud cynnydd da yn eu datblygiad personol, cymdeithasol, moesol a'u datblygiad ehangach;* *1.15 dangos ymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas; ac* *1.16 yn barod i gymryd rhan effeithiol yn y gweithle a'r gymuned.*

Gofynion arolygu

Mewn arolygiadau ardal, bydd angen i chi adrodd ar:

- lwyddiant dysgwyr o ran cyflawni nodau dysgu cytunedig;
- eu cynnydd wrth ddysgu; a
- datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu.

Yn yr adran hon o'r adroddiad, ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19, bydd hefyd angen i chi adrodd ar:

- berfformiad cyffredinol dysgwyr ym mhob un o'r sectorau yn yr ardal;
- perfformiad dysgwyr rhwng 16 a 19 oed;
- perfformiad cymharol dysgwyr, gan gynnwys unrhyw ddadansoddiadau ychwanegu gwerth;
- medrau allweddol;
- medrau dwyieithog;
- presenoldeb;
- agweddau at ddysgu; ac
- ymddygiad.

Defnyddio'r meini prawf

Ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn, byddwch yn tynnu'n bennaf ar y wybodaeth perfformiad a'r barnau sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau arolygu presennol. Bydd angen i chi roi gradd gyffredinol ar gyfer Cwestiwn allweddol 1 – Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? Wrth lunio gradd gyffredinol dylech roi'r pwys mwyaf ar y barnau a wneir am y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Er na fyddai'n amlwg yn uniongyrchol yn y cwestiwn allweddol hwn, dylai Llwybrau Dysgu 14-19 ddylanwadu ar y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Byddai felly'n cael effaith ar bob un o'r tri phwynt bwled ar y chwith. Mae Llwybrau Dysgu 14-19 wedi cael eu cynllunio i godi safonau drwy sicrhau bod dysgwyr yn dilyn cyrsiau priodol sy'n arwain at y cymwysterau sy'n diwallu eu galluoedd, eu diddordebau a'u hanghenion.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Cwestiwn allweddol 2: pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae athrawon a hyfforddwyr yn:
• **pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddi yn diwallu anghenion y dysgwyr a'r gofynion cwricwlwm neu gwrs**	*2.1 cymell a herio dysgwyr i sicrhau rhagoriaeth;* *2.2 sefydlu perthynas waith dda sy'n meithrin dysgu;* *2.3 meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn eu maes;* *2.4 cynllunio'n effeithiol a chanddynt amcanion eglur y mae dysgwyr yn eu deall mewn sesiynau addysgu a phrofiadau dysgu eraill;* *2.5 defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol dysgwyr;* *2.6 hyrwyddo cyfle cyfartal, delio â materion yn ymwneud â chydraddoldeb o ran rhyw, hil ac anableddau mewn ffordd weithredol;* *2.7 cwrdd ag anghenion ieithyddol y dysgwyr, gan gynnwys cynnig darpariaeth addysgu a hyfforddi dwyieithog; a* *2.8 chynllunio i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr mewn ffordd hyblyg a monitro ac adolygu eu cynnydd.*
• **pa mor drylwyr yw'r asesu a sut y caiff ei ddefnyddio i gynllunio a gwella dysgu**	*2.9 asesu cyflawniadau a chynnydd dysgwyr yn deg, yn gywir ac yn rheolaidd;* *2.10 cwrdd â gofynion statudol a gofynion cyrff rheoleiddio o ran cofnodi ac achredu cyflawniadau dysgwyr;* *2.11 sicrhau bod dysgwyr yn deall diben asesu a'u bod yn rhan o'r broses cynllunio a gwella cynnydd; a* *2.12 hysbysu'r rhai sydd â diddordeb dilys am gynnydd a chyflawniadau dysgwyr.*

Gofynion adrodd

Mewn adroddiadau ardal, bydd angen i chi adrodd ar:

- ba mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddi yn diwallu anghenion y dysgwyr a gofynion y cwricwlwm neu'r cwrs; a
- pha mor drylwyr yw'r asesu a sut y caiff ei ddefnyddio i gynllunio a gwella dysgu.

Yn yr adran hon o'r adroddiad, ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19, bydd hefyd angen i chi adrodd ar:

- ansawdd cyffredinol yr addysgu a'r hyfforddiant yn yr ardal;
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddiant yn y gwahanol sectorau;
- gwybodaeth pwnc;
- ansawdd y cynllunio a'r cyflwyno;
- diwallu anghenion dysgwyr;
- herio dysgwyr i gyflawni safonau uchel;
- gwaith staff Gyrfa Cymru;
- ansawdd cyffredinol yr asesu, y cofnodi a'r adrodd; ac
- ansawdd yr asesu, y cofnodi a'r adrodd ym mhob sector.

Defnyddio'r meini prawf

Dylech roi gradd gyffredinol ar gyfer Cwestiwn allweddol 2 – Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? Wrth lunio gradd gyffredinol dylech roi'r pwys mwyaf ar y barnau a wnaethoch am effeithiolrwydd yr addysgu a'r hyfforddi.

Yn yr un modd ag yng Nghwestiwn allweddol 1, mae'n bosibl na fyddwch yn dod o hyd i dystiolaeth uniongyrchol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19, ond dylai fod yn dylanwadu ar yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu. Mae'r angen i arfarnu pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddi yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn sicrhau cyfranogiad gweithredol dysgwyr yn arbennig o berthnasol. Mae asesu hefyd yn chwarae rôl drwy sicrhau bod dysgwyr yn deall eu cyflawniadau a'u cynnydd, a'u bod yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio a gwella'u dysgu.

Cwestiwn allweddol 3: pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae profiadau dysgu yn:
• **i ba raddau y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr**	*3.1 cwrdd â dyheadau dysgwyr a, phan fo hynny'n addas, yn rhoi'r cyfle iddynt sicrhau achrediad;* *3.2 cynnig cydbwysedd, ehangder, hyblygrwydd, cydlynedd a dilyniant;* *3.3 datblygu medrau sylfaenol a medrau allweddol dysgwyr;* *3.4 ehangu a chyfoethogi profiad dysgwyr trwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau arferol ac oddi ar y safle;* *3.5 hyrwyddo datblygiad personol dysgwyr, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol;* *3.6 cael eu cyfoethogi gan bartneriaethau effeithiol gyda darparwyr eraill a phawb sydd â diddordeb; a* *3.7 chwrdd â gofynion y cwrs a gofynion cyfreithiol.*
• **i ba raddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach**	*3.8 darparu addysg gysylltiedig â gwaith;* *3.9 hyrwyddo medrau dwyieithog dysgwyr ac adlewyrchu ieithoedd a diwylliant Cymru;* *3.10 delio ag amddifadedd cymdeithasol a stereoteipio a sicrhau mynediad a chyfle cyfartal i bob dysgwr;* *3.11 hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy;* *3.12 ystyried anghenion cyflogwyr;* *3.13 datblygu medrau menter a medrau eraill y mae eu hangen i gynnal datblygiad economaidd; a* *3.14 adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes ac adferiad cymunedol.*

Gofynion adrodd

Ym mhob math o arolygiad, bydd angen i chi adrodd ar ba mor dda mae'r profiadau dysgu:

- yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr; ac
- yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach.

Yn yr adran o'r adroddiad, ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 bydd angen i chi adrodd ar:

- ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth, gan gynnwys darpariaeth yn y pum parth;
- cyfraddau cyfranogiad a'u cymhariaeth â chyfraddau cenedlaethol;
- dewislenni ac opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yn 14 oed ac yn 16 oed;
- ystod y cyrsiau yn y gwahanol sectorau;
- darpariaeth gydweithrediadol a chydweithredol;
- prosbectws o weithgareddau;
- darpariaeth y tu allan i'r ardal, os yw'n briodol;
- darpariaeth ar gyfer medrau sylfaenol, allweddol a dwyieithog;
- darpariaeth ar gyfer addysg bersonol, gymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd;
- darpariaeth ar gyfer Cymru, Ewrop a'r Byd;
- addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd;
- profiad sy'n canolbwyntio ar waith;
- cyfranogiad cymunedol; a
- gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon, esthetig a chreadigol.

Defnyddio'r meini prawf

Dylech roi gradd gyffredinol ar gyfer Cwestiwn allweddol 3 - Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? Wrth lunio gradd gyffredinol, dylech roi'r pwys ar y barnau a wnaethoch am ba mor dda y maent yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr.

Yn y cwestiwn allweddol hwn, dylech arolygu ac adrodd ar dair Elfen Allweddol gyntaf Llwybrau Dysgu 14-19.

Dyma'r elfennau:

- Elfen Allweddol 1: Llwybr Dysgu Unigol;
- Elfen Allweddol 2: Rhagor o Ddewis a Hyblygrwydd; ac
- Elfen Allweddol 3: Y Craidd Dysgu

Dylech roi sylwadau ar ansawdd neu ddatblygiad y ddewislen. Bydd hyn yn cynnwys effaith y Rhwydwaith 14-19 a chysylltiad darparwyr ag ef. Wrth wneud hyn, dylech ystyried sut mae darparwyr yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn cynnig yr ystod lawn o gyrsiau sy'n gallu diwallu diddordebau ac anghenion dysgwyr.

Os nad yw darparwyr yn datblygu Llwybrau Dysgu 14-19 ac, yn arbennig, os nad ydynt yn datblygu dewislen sy'n galluogi dysgwyr i ddilyn eu Llwybrau Dysgu unigol, yna dylech ystyried bod hyn yn ddiffyg sylweddol a dylai ddylanwadu ar y radd gyffredinol a roddir gennych i gwestiwn allweddol 3.

Cwestiynau i'w hystyried:

1 Pa gynlluniau sydd gan ddarparwyr a'r Rhwydwaith 14-19 i gyflwyno Llwybrau Dysgu 14-19 a pha mor effeithiol yw'r rhain?

2 A yw'r set bresennol o brofiadau dysgu yn cynnig:

- dewisiadau sy'n diwallu diddordebau, galluoedd ac arddulliau dysgu dysgwyr;
- ystod eang a chytbwys o brofiadau;
- cyfuniad o elfennau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol; ac
- y Craidd Dysgu?

3 A yw darparwyr a'r Rhwydwaith 14-19 yn:

- cydnabod profiadau o bob agwedd ar fywyd dysgwr; ac
- yn cynnig cefnogaeth i oresgyn rhwystrau rhag dysgu?

4 Pa effaith y mae datblygiad y ddewislen yn ei chael ar ddarparwyr?

5 Pa mor barod y mae darparwyr a'r Rhwydwaith 14-19 i ddarparu neu i alluogi mynediad i raglenni cyffredinol a chymhwysol o lefel mynediad i lefel 4 yn y pum parth?

6 Lle bo'n briodol, pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg?

7 Pa effaith y mae'r prosbectws gweithgareddau yn ei gael ar ddarparwyr?

8 Pa mor barod y mae darparwyr a'r Rhwydwaith 14-19 i gynnig lleiafswm y gofynion ynghyd ag ychwanegiadau'r Craidd Dysgu, gan gynnwys profiad sy'n canolbwyntio ar waith a chyfranogiad cymunedol?

9 Ym mha fodd a pha mor dda y mae'r Rhwydwaith 14-19 yn datblygu'r ddarpariaeth fel ei bod yn ateb gofynion Llwybrau Dysgu 14-19?

10 Pa effaith y mae'r Bartneriaeth Pobl Ifanc yn ei chael ar y ddarpariaeth, yn enwedig wrth gyfrannu at y prosbectws gweithgareddau a chyfranogiad cymunedol?

Cwestiwn allweddol 4: pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae darparwyr yn:
• **ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr**	*4.1 cynllunio a rheoli trefniadau gofal a gwasanaethau cefnogi yn effeithiol;* *4.2 gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni, gofalwyr a chyflogwyr, ac ystyried eu barn;* *4.3 darparu gwybodaeth am yr holl gyfleoedd sydd ar gael a chyfarwyddyd diduedd sy'n helpu dysgwyr i ddewis y cwrs sy'n addas iddynt;* *4.4 meddu ar raglenni sefydlu sy'n helpu dysgwyr i setlo'n gyflym, deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau a gofynion y cwrs a'r rhaglen;* *4.5 cynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd personol o ansawdd uchel i ddysgwyr, gan gynnwys mynediad i addysg bersonol a chymdeithasol, rhaglenni tiwtor a gwasanaethau arbenigol;* *4.6 monitro prydlondeb, presenoldeb, ymddygiad a pherfformiad dysgwyr a gweithredu'n gynnar ac yn addas yn ôl y gofyn;* *4.7 cynnig addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd effeithiol sy'n helpu dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus;* *4.8 meddu ar drefniadau sy'n cyfrannu at les pob dysgwr; ac yn* *4.9 meddu ar drefniadau effeithiol i amddiffyn plant a phobl ifanc ac er mwyn delio ag apeliadau a chwynion.*
• **ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol**	*4.10 dadansoddi anghenion dysgu unigol yn effeithiol;* *4.11 darparu cefnogaeth ychwanegol i gwrdd ag anghenion unigol, gan gynnwys anghenion dysgwyr sydd ag anableddau corfforol a/neu ddysgu, nam ar eu synhwyrau ac anghenion arbennig eraill; a* *4.12 darparu cefnogaeth briodol ar gyfer dysgwyr y mae eu hymddygiad yn amharu ar eu cynnydd hwy ac ar gynnydd eraill.*

• **ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal**	*4.13 cynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd addas i ddysgwyr, gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig neu ieithyddol;* *4.14 hyrwyddo cydraddoldeb rhyw a herio stereoteipio yn newisiadau a disgwyliadau dysgwyr;* *4.15 hyrwyddo cydberthynas dda rhwng hiliau ar draws pob maes gweithgarwch;* *4.16 meddu ar fesurau effeithiol i ddileu ymddygiad gormesol, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail hil, bwlio a phob math o aflonyddu;* *4.17 sicrhau triniaeth gyfartal i ddysgwyr anabl a gwneud addasiadau rhesymol rhag eu gosod dan anfantais sylweddol; ac* *4.18 adnabod a pharchu amrywiaeth.*

Gofynion adrodd

Mewn arolygiadau ardal, bydd angen i chi adrodd ar:

- ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd;
- y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol; ac
- ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal.

Yn yr adran o'r adroddiad, ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19, bydd hefyd angen i chi adrodd ar:

- ansawdd cyffredinol y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth;
- gweithio mewn partneriaeth;
- gwybodaeth am gyfleoedd a chyfarwyddyd;
- sefydlu adeg trosglwyddo;
- anogwr dysgu;
- cymorth personol;
- addysg a chyfarwyddyd ar yrfaoedd;
- amddiffyn plant;
- cefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol; a
- darpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal.

Defnyddio'r meini prawf

Dylech ddarparu gradd gyffredinol ar gyfer cwestiwn allweddol 4 – Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? Wrth lunio gradd gyffredinol, dylech roi'r un pwys ar y barnau a wnaethoch ynghylch ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd, y ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal.

Yn y cwestiwn allweddol hwn, dylech arolygu ac adrodd ar dair elfen nesaf y Llwybrau Dysgu 14-19:

- Elfen Allweddol 4: Cymorth Hyfforddwr Dysgu;
- Elfen Allweddol 5: Mynediad at Gymorth Personol; a
- Elfen Allweddol 6: Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd am Yrfaoedd.

Cwestiynau i'w hystyried:

1 Pa mor effeithiol yw'r trefniadau i sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu hawl sylfaenol i Anogwr Dysgu? Sut byddant yn sicrhau bod yr Hyfforddwr Dysgu yn ddiduedd?

2 Pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth a/neu'r mynediad i gefnogaeth er mwyn diwallu anghenion unigolion, yn enwedig wrth eu helpu i ddatblygu atebion i broblemau personol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol?

3 Pa rôl y mae partneriaid yn ei chwarae o fewn y Partneriaethau Pobl Ifanc?

4 A oes gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd, o ansawdd uchel?

Gwrando ar ddysgwyr

Yn achos Cwestiwn Allweddol 3 a Chwestiwn Allweddol 4, byddwch yn elwa llawer ar siarad gyda dysgwyr. Dyma rai cwestiynau posibl i ofyn iddynt:

1 Beth yw eu bodlonrwydd cyffredinol â'u cyrsiau?

2 Beth oedd ansawdd y cyfarwyddyd a gawsant cyn cychwyn ar eu cyrsiau? A oedd yn gynhwysfawr ac yn ddiduedd?

3 Beth yw ansawdd y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth y maent yn eu cael yn ystod eu cyrsiau? Os ydynt yn gweithio gyda hyfforddwr dysgu, pa mor llwyddiannus fu hynny?

4 Ers iddynt fod gyda'u darparwr, a ydynt wedi cael problemau neu anawsterau a pha mor dda yr aethpwyd i'r afael â'r rhain?

5 Pa mor fodlon y maen nhw gyda'r dewisiadau a wnaethant?

6 Beth yw eu barn am ansawdd cyffredinol yr addysgu a'r hyfforddiant yn eu darparwr?

7 Sut maent yn teimlo am safon a lefel y gwaith?

8 Yn gyffredinol, beth yw nodweddion da a diffygion y darparwr?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn allweddol 5: pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn:
• **pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad eglur ac yn hyrwyddo safonau uchel**	*5.1 rhoi cyfeiriad eglur trwy gyfrwng gwerthoedd, nodau, amcanion a thargedau sy'n gwbl ddealladwy i bawb sy'n darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill;* *5.2 meddu ar nodau a gwerthoedd amlwg sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, ac a adlewyrchir yng ngwaith y darparwr;* *5.3 ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a phartneriaethau lleol a chytundebau consortia;* *5.4 gosod a chwrdd â thargedau a nodau heriol a realistig;* *5.5 rheoli a gwella perfformiad staff unigol, timau ac adrannau; a* *5.6 chynnal gwerthuso neu adolygu staff effeithiol er mwyn hyrwyddo'u datblygiad proffesiynol a gwella ansawdd y ddarpariaeth.*
• **pa mor dda y mae llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau**	i ba raddau y mae llywodraethwyr a chyrff goruchwylio yn: *5.7 helpu i osod cyfeiriad strategol y darparwr;* *5.8 monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd; a* *5.9 chwrdd â gofynion rheoleiddiol a chyfreithiol.*

Gofynion adrodd

Mewn arolygiadau ardal, bydd angen i chi adrodd ar ba mor dda:

- y mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi cyfeiriad eglur ac yn hyrwyddo safonau uwch; ac
- y mae llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau.

Yn yr adran o'r adroddiad, ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 bydd angen i chi hefyd adrodd ar:

- ansawdd cyffredinol yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol;
- gwaith y Rhwydwaith 14-19 a gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr;
- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn y sectorau gwahanol;
- rôl yr awdurdod lleol a'r Bartneriaeth Pobl Ifanc; a
- gwaith llywodraethwyr.

Defnyddio'r meini prawf

Dylech ddarparu gradd gyffredinol ar gyfer cwestiwn allweddol 5 – Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? Wrth ffurfio gradd gyffredinol, dylech roi'r pwys mwyaf i effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr.

Pan fyddwch yn arfarnu arweinyddiaeth a rheolaeth strategol, bydd angen i chi ystyried y graddau a ddyfarnwyd gennych yng nghwestiwn allweddol 1 - Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? Mae cyswllt cryf rhwng y safonau a gyflawnir a'r radd a ddyfernir ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth. Os yw arweinwyr a rheolwyr yn gweithio'n effeithiol yna dylai'r safonau sy'n cael eu cyflawni gan ddysgwyr adlewyrchu hyn. Mae'r radd sy'n cael ei dyfarnu gennych ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yn debygol o gyfateb i'r radd ar gyfer cwestiwn allweddol 1. Os dyfernir gradd 3 neu is ar gyfer cwestiwn allweddol 1, yna ni ddylech ddyfarnu graddau 1 na 2 ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth strategol.

Yng nghwestiwn allweddol 5, dylech roi sylwadau am ba mor dda mae darparwyr a'r Rhwydwaith 14-19 yn cynnwys Llwybrau Dysgu 14-19 wrth osod eu blaenoriaethau a chyfeiriad strategol. Yn arbennig, bydd angen i chi ystyried pa mor dda mae darparwyr a'r Rhwydwaith 14-19 yn edrych ar Lwybrau Dysgu 14-19 o safbwynt y dysgwyr yn hytrach nag edrych yn syml ar sut mae'n effeithio ar y darparwyr eu hunain. Mae hyn yn golygu y dylai darparwyr edrych ar sut gallant gyfrannu at ehangu dewis y dysgwyr, p'un a yw hyn drwy eu darpariaeth eu hunain, yn ddarpariaeth sy'n deillio o gydweithio â darparwyr eraill, neu'n ddarpariaeth o fan arall.

Yn yr adran hon, dylech roi sylwadau am ba mor dda y mae'r Rhwydwaith 14-19 yn gweithio. Dylech fod yn gallu arfarnu effaith y Rhwydwaith 14-19 lleol ar ddarparwyr a pha mor dda y mae darparwyr yn cyfrannu ato.

Mae gwybodaeth ychwanegol yn atodiad 2 am waith y Rhwydweithiau 14-19.

Cwestiwn allweddol 6: pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn:
• **pa mor effeithiol y caiff perfformiad y darparwr ei fonitro a'i arfarnu**	*6.1 gwybod yn dda am berfformiad mewn meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol;* *6.2 sefydlu trefniadau hunanarfarnu sy'n gynhwysfawr, yn systematig ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol;* *6.3 ceisio canfod barn dysgwyr, staff a phobl eraill sydd â diddordeb a'u hystyried; a* *6.4 sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill yn deall y trefniadau hunanarfarnu ac yn cyfrannu'n llawn iddynt.*
• **pa mor effeithiol yw'r broses o gynllunio er mwyn sicrhau gwelliant**	*6.5 gosod blaenoriaethau a chamau gweithredu eglur er mwyn gwella;* *6.6 sicrhau y cefnogir y blaenoriaethau trwy ddyrannu adnoddau digonol ar eu cyfer; a* *6.7 dangos bod camau gweithredu wedi arwain at welliannau mesuradwy.*

Gofynion adrodd

Ym mhob math o arolygiad, bydd angen i chi ddarparu arfarniad cyffredinol am:

- ba mor effeithiol y caiff perfformiad y darparwyr ei fonitro a'i arfarnu; a
- pha mor effeithiol yw'r broses o gynllunio ar gyfer gwella.

Yn yr adran hon o'r adroddiad, ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 bydd angen i chi hefyd adrodd ar:

- ansawdd cyffredinol yr hunanarfarnu a'r cynllunio ar gyfer gwella;
- ansawdd yr hunanarfarnu yn y Rhwydwaith 14-19 ac yn y sectorau gwahanol;
- ansawdd yr adroddiadau hunanarfarnu;
- ansawdd y cynllunio ar gyfer gwella yn y Rhwydwaith 14-19 ac yn y sectorau gwahanol.

Defnyddio'r meini prawf

Dylech ddarparu gradd gyffredinol ar gyfer cwestiwn allweddol 6 – Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? Wrth lunio gradd gyffredinol, dylech roi'r un pwys i ba mor effeithiol y mae perfformiad y Rhwydwaith 14-19 a pherfformiad y darparwyr yn cael ei fonitro a'i arfarnu, a pha mor effeithiol yw'r broses o gynllunio ar gyfer gwella.

Dylech edrych ar sut mae'r Rhwydwaith 14-19 yn arfarnu'r ddarpariaeth bresennol yng ngoleuni gofynion Llwybrau Dysgu 14-19 a pha mor dda y mae'n cynllunio ar gyfer y rhain yn y tymor byr ac yn y tymor hir.

Cwestiwn allweddol 7: pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae:
• **ddigonolrwydd, addasrwydd a defnydd o staff, adnoddau dysgu ac adeiladau ac ystafelloedd**	*7.1 digon o staff addysgu, hyfforddi a chefnogi sy'n gymwys, yn arbenigol a phrofiadol;* *7.2 pob dysgwr yn cael mynediad at adnoddau dysgu priodol sy'n cyd-fynd â gofynion eu profiadau dysgu; ac* *7.3 adeiladau ac ystafelloedd yn cynnig lleoliad addas ar gyfer addysgu, dysgu a chefnogaeth dda i bob dysgwr.*
• **pa mor effeithlon y rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian**	*7.4 adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n economaidd, effeithlon ac effeithiol;* *7.5 staff addysgu, hyfforddi a chefnogi yn cael eu lleoli, eu rheoli a'u datblygu'n effeithiol;* *7.6 adnoddau'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r darparwr ar gyfer datblygiad; a'r* *7.7 defnydd o adnoddau yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth am arian.*

Gofynion adrodd

Mewn arolygiadau ardal, bydd angen i chi adrodd ar:

- ddigonolrwydd, addasrwydd a defnydd o staff, adnoddau dysgu ac adeiladau ac ystafelloedd; a
- pha mor effeithlon y rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Yn yr adran hon o'r adroddiad, ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19, bydd hefyd angen i chi adrodd ar:

- ba mor effeithlon y mae arweinwyr a rheolwyr yn gyffredinol;
- pa mor effeithlon y mae arweinwyr a rheolwyr mewn gwahanol sectorau; a'r
- gwerth cyffredinol am arian sy'n cael ei gyflawni gan y Rhwydwaith a'i ddarparwyr.

Defnyddio'r meini prawf

Dylech ddarparu gradd gyffredinol ar gyfer cwestiwn allweddol 7 – Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? Wrth lunio gradd gyffredinol, dylech roi'r pwys mwyaf ar y barnau a wnaethoch am yr ail bwynt bwled ar ochr chwith y tabl uchod ('pa mor effeithlon y rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian'). Yn yr un modd ag yng nghwestiwn allweddol 5, mae cyswllt cryf rhwng y safonau a gyflawnir a'r radd a ddyfernir ar gyfer gwerth am arian. Mae'r radd a ddyfernwch ar gyfer gwerth am arian yn debygol o gyfateb i'r radd ar gyfer cwestiwn allweddol 1. Os dyfernir gradd 3 neu lai ar gyfer cwestiwn allweddol 1, yna ni ddylech ddyfarnu graddau 1 na 2 ar gyfer cwestiwn allweddol 7.

Ym mhob darparwr, ond yn arbennig lle bo'r grwpiau addysgu yn fychan, bydd angen i chi ystyried a yw'r darparwr a'r Rhwydwaith 14-19 yn cynnig gwerth am arian. Dylech archwilio a yw'r grwpiau addysgu bychain yn nosbarth chwech yn dwyn adnoddau oddi wrth gyfnodau allweddol 3 a 4. Bydd angen i chi ystyried i ba raddau y mae darparwyr yn y Rhwydweithiau 14-19 yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwella'u cost effeithiolrwydd.

Mae barn o werth 'anfoddhaol' am arian yn arwydd clir nad yw'r sefyllfa bresennol yn yr ardal yn cael ei hystyried yn ddewis dichonadwy ar gyfer symud ymlaen. Mae barn o werth 'digonol' am arian yn arwydd bod y ddarpariaeth ar ei ffurf bresennol yn hyfyw, ond nid yn nhermau'r pwysau demograffig tebygol yn y dyfodol. I bob diben, mae hyn hefyd yn golygu nad yw'r sefyllfa bresennol yn ddewis dichonadwy.

Argymhellion

Dylai arolygwyr ddarparu:

argymhellion eglur ar gyfer gwella

Dylech roi argymhellion clir ar gyfer gwella, lle bo'r angen. Bydd hyn yn rhoi arwydd eglur a phenodol i'r Rhwydwaith 14-19 ac i'r darparwyr o'r diffygion y bydd angen iddynt fynd i'r afael â hwy yn eu cynlluniau gweithredu. Dylech ysgrifennu'r argymhellion mewn Cymraeg neu Saesneg clir ac yn ôl eu blaenoriaeth.

Dylai'r argymhellion ddeillio o'r prif ganfyddiadau a dylent roi sylfaen glir ac ymarferol i'r Rhwydwaith 14-19 ac i'r darparwyr weithredu arni. Dylech roi pwyslais ar godi safonau cyflawniad a gwella ansawdd y ddarpariaeth. **Dim ond y materion hynny o'r brif flaenoriaeth sy'n briodol yn y fan hon gan fydd corff yr adroddiad yn cyfeirio at rai eraill**. Dylai'r argymhellion fod y rheiny:

- a fyddai'n gwneud y cyfraniad mwyaf at welliannau mewn safonau ac ansawdd; ac
- y mae modd i'r Rhwydwaith 14-19 ac i ddarparwyr fynd i'r afael â hwy, er efallai y bydd angen amser i'w cyflawni.

Crynodeb

Dylai'r crynodeb ganolbwyntio ar:

- y safonau a gyflawnir gan fyfyrwyr 14-19 mlwydd oed yn yr ardal;
- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant; ac
- arweinyddiaeth a rheolaeth, gan gynnwys gwerth am arian.

Wrth arfarnu'r rhain, bydd angen i chi:

- sicrhau bod eich barnau'n gorfforaethol;
- ystyried y barnau am bob agwedd y cafodd ei harolygu. Dylai nodi nodweddion da a diffygion penodol arwain at broffil eglur o'r ardal a'i chyflawniadau; a
- sicrhau bod y pwys mwyaf yn cael ei roi i farnau am safonau.

Atodiad 1: Protocol ac arweiniad i enwebeion

Cefndir

Bydd arolygiadau'n rhoi cyfle i gynnwys darparwyr yn weithredol yn y broses arolygu trwy alluogi enwebai o'r Rhwydwaith 14-19 i weithio gyda'r tîm arolygu. Bydd hyn yn sicrhau mwy o gyfranogiad gan y Rhwydwaith a chryfhau'r bartneriaeth rhwng y tîm arolygu a darparwyr yn y Rhwydwaith. Nid yw'n ofynnol i'r rhwydwaith gyflwyno enwebai.

Estynnir gwahoddiad i Rwydweithiau 14-19 ddewis enwebai a fydd yn:

- sicrhau bod yr arolygwyr yn cael yr holl wybodaeth am gyd-destun gwaith yr ardal;
- cyfrannu at gyfarfodydd y tîm arolygu; ac
- yn gwrando ar ganfyddiadau'r tîm wrth iddynt ymddangos.

Yr enwebai

Bydd yr enwebai yn aelod o staff y mae ei swydd ar lefel ddigon uchel i fod yn gyswllt rhwng y darparwyr a'r tîm arolygu.

Cyn yr arolygiad, bydd yr arolygydd cofnodol, trwy drafod gyda'r Rhwydwaith, yn pennu:

- a yw'r Rhwydwaith yn dymuno manteisio ar y cyfle o gael enwebai; ac
- union natur rôl yr enwebai.

Os yw'r Rhwydwaith yn penderfynu peidio ag enwebu rhywun, bydd angen i'r arolygydd cofnodol barhau i sefydlu hinsawdd lle y mae'r darparwyr yn gwerthfawrogi'r arolygiad ac yn cynnal perthynas waith dda gyda'r staff uwch.

Os yw'r Rhwydwaith yn penderfynu peidio â chael enwebai, ni ddylai hyn amharu ar yr arolygiad. Ni fydd y ffaith nad yw Rhwydwaith wedi enwebu rhywun ar gyfer y tîm arolygu yn cael unrhyw effaith ar farnau'r tîm arolygu.

Mae rôl yr enwebai yn feichus ac yn gofyn i'r unigolyn hwnnw arfer y gwrthrychedd sy'n hanfodol mewn proses arolygu allanol. Bydd angen i'r enwebai barchu natur gyfrinachol iawn holl drafodaethau'r arolygiad. Nid gweithredu fel eiriolwr nac amddiffynnwr y Rhwydwaith na'i ddarparwyr yw'r rôl hon. Gall union natur rôl enwebai amrywio, yn dibynnu ar amgylchiadau a dymuniadau'r rhwydwaith. Rhaid cytuno arno cyn pob arolygiad.

Mae gweddill yr atodiad hwn yn nodi:

- rôl yr enwebai;
- cyfrifoldebau'r enwebai, yr arolygydd cofnodol a'r Rhwydwaith; a
- gweithgareddau i'w cynnal yn ystod gwahanol gyfnodau'r arolygiad.

Rôl yr enwebai

Dylai'r Rhwydwaith a'r arolygydd cofnodol drafod rôl yr enwebai.

Ym mhob achos, bydd angen i'r enwebai:

- gysylltu â'r arolygydd cofnodol ynghylch agweddau gweinyddol ar yr arolygiad, fel cwmpas, dogfennau a chyfarfodydd, cyn ac ar ôl yr arolygiad;
- ymateb i geisiadau gan y tîm am wybodaeth ychwanegol yn ystod yr arolygiad; a
- chynorthwyo â datrys unrhyw broblemau sy'n codi trwy gydol y broses arolygu.

Yn ogystal â hyn, pan fydd y Rhwydwaith a'r arolygydd cofnodol wedi cytuno ar hyn, gall yr enwebai hefyd:

- gyfranogi mewn cyfarfodydd tîm pan drafodir nodweddion da a diffygion, ond ni ddylai fod yn rhan o unrhyw drafodaeth ar ddyfarnu graddau;
- ymwneud â chasglu tystiolaeth, pan fo hynny'n briodol a phan gytunir ar hynny; a
- darparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol angenrheidiol yn dilyn cyfarfodydd y tîm.

Cyfrifoldebau

Bydd yr enwebai:

- yn cytuno ar union rôl yr enwebai gyda'r Rhwydwaith a'r tîm arolygu;
- yn gyfarwydd â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r Arweiniad ar Arolygiadau Ardal;
- yn gyfarwydd ag arweiniad Estyn ar rôl yr enwebai;
- yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o unrhyw adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gweithredu;
- yn cysylltu â'r arolygydd cofnodol ynghylch agweddau gweinyddol ar yr arolygiad, fel cwmpas, dogfennau a chyfarfodydd;
- yn sicrhau y caiff arolygwyr yr holl wybodaeth am gyd-destun gwaith y Rhwydwaith;
- yn ymwneud â chasglu tystiolaeth, pan fo hynny'n briodol a phan gytunir ar hynny;
- yn ymateb i geisiadau gan y tîm am wybodaeth ychwanegol;
- yn parchu natur gyfrinachol yr holl wybodaeth a ddaw i law yn ystod yr arolygiad;
- yn cynorthwyo â datrys unrhyw broblemau sy'n codi;
- yn cyfrannu yng nghyfarfodydd y tîm arolygu;
- yn osgoi bod yn amddiffynnol neu yn eiriolwr ar ran y Rhwydwaith neu'r darparwyr; ac
- yn gwrando ar ganfyddiadau fel y dônt i'r amlwg.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn:

- cytuno ar union rôl yr enwebai gyda'r enwebai a'r Rhwydwaith;
- sicrhau bod yr enwebai yn cael ei friffio/briffio'n llawn ynghylch cynnal yr arolygiad;
- briffio'r tîm arolygu ynghylch rôl yr enwebai;
- sicrhau bod yr enwebai yn teimlo fel aelod llawn o'r tîm arolygu;
- cynllunio gwaith yr enwebai yn ystod wythnos yr arolygiad ar y cyd â'r Rhwydwaith;
- sicrhau bod yr enwebai yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd tîm; a
- sicrhau nad yw'r enwebai yn chwarae unrhyw ran weithredol mewn dyfarnu graddau.

Bydd y Rhwydwaith yn:

- cytuno ar union rôl yr enwebai gyda'r enwebai a'r arolygydd cofnodol;
- fel arfer yn cyfeirio unrhyw faterion, pryderon a thystiolaeth bellach drwy'r enwebai i'r tîm arolygu;
- ystyriol o'r galwadau a osodir ar yr enwebai;
- cynnig cymorth i'r enwebai wrth iddo/iddi gyflawni ei dasg/thasg;
- parchu natur gyfrinachol y gwaith a wneir gan yr enwebai; a
- sicrhau bod yr enwebai wedi chwarae rhan allweddol mewn unrhyw weithdrefnau hunanarfarnu.

Gweithgareddau yn ystod y broses arolygu

Cyn yr arolygiad

Yr enwebai	• Ymgyfarwyddo â'r Fframwaith a'r Arweiniad ar gyfer arolygiadau • Ymgyfarwyddo ag arweiniad Estyn ar rôl yr enwebai • Ymgyfarwyddo â dogfennau'r arolygiad • Cymryd rhan yn y trafodaethau gyda'r arolygydd cofnodol yn ystod yr ymweliad cyn yr arolygiad • Mynychu cyfarfodydd cyn yr arolygiad • Gwneud trefniadau gweinyddol ar gyfer yr arolygiad • Coladu dogfennau y mae eu hangen ar gyfer yr arolygiad, fel y bo'n briodol
Yr arolygydd cofnodol	• Trafod rôl yr enwebai yn ystod y cyswllt cyntaf gyda'r Rhwydwaith • Sicrhau bod yr enwebai yn rhan o'r trafodaethau a gynhelir yn ystod yr ymweliad cyn yr arolygiad • Briffio'r enwebai yn llawn yn yr un ffordd ag aelodau eraill y tîm ynghylch y trefniadau ar gyfer yr arolygiad • Cynllunio gwaith yr enwebai yn ystod yr arolygiad • Sicrhau bod yr enwebai yn cael yr holl ddogfennau arolygu allweddol • Briffio aelodau eraill y tîm yn llawn ynghylch rôl yr enwebai
Y rhwydwaith	• Pennu rôl yr enwebai yn ystod y cyswllt cyntaf â'r arolygydd cofnodol • Sicrhau bod yr enwebai yn cyfrannu mewn trafodaethau yn ystod yr ymweliad cyn yr arolygiad • Egluro rôl yr enwebai i'r arolygydd cofnodol a'r enwebai • Sicrhau bod yr enwebai yn mynychu'r cyfarfodydd cyn yr arolygiad

Yn ystod yr arolygiad

Yr enwebai	Bydd pob enwebai yn: • cysylltu â'r arolygydd cofnodol ynghylch trefniadau gweinyddol; • ymateb i geisiadau gan y tîm am wybodaeth ychwanegol; • cynorthwyo i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi; a • pheidio â chymryd rhan wrth i'r graddau gael eu dyfarnu. Pan gytunir ar hynny, gall enwebeion**:** • gyfrannu at drafodaethau ynghylch nodweddion da a diffygion yn ystod cyfarfodydd tîm; • bod yn rhagweithiol drwy ddarparu tystiolaeth ychwanegol yn dilyn cyfarfodydd tîm; • llenwi FfACau pan fo hynny'n briodol; a • lle y bo'n briodol, gofyn i'r tîm arolygu i egluro ei farnau.
Yr arolygydd cofnodol	• Monitro gwaith yr enwebai a chynnig cynhaliaeth pan fo hynny'n briodol • Sicrhau bod yr enwebai yn chwarae rhan mor llawn ag y bo modd yn yr arolygiad • Fel arfer, cyfeirio ceisiadau am dystiolaeth a gwybodaeth ychwanegol drwy'r enwebai • Sicrhau nad yw'r enwebai yn cymryd unrhyw ran weithredol wrth ddyfarnu graddau
Y rhwydwaith	• Defnyddio'r enwebai i gysylltu â'r tîm arolygu • Fel arfer, cyfeirio unrhyw faterion neu bryderon drwy'r enwebai • Cynnig cymorth i'r enwebai wrth iddo/i gyflawni'r dasg • Parchu natur gyfrinachol y gwaith a wneir gan yr enwebai

Ar ôl yr arolygiad

Yr enwebai	• Cyfrannu at archwilio cywirdeb ffeithiol yr adroddiad drafft • Chwarae rhan lawn wrth lunio'r cynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad
Y rhwydwaith	• Cynnwys yr enwebai wrth archwilio cywirdeb ffeithiol yr adroddiad drafft • Cynnwys yr enwebai yn y broses o lunio'r cynllun gweithredu

Datganiad o gytundeb rhwng yr arolygydd cofnodol, yr ysgol a'r enwebai.

Rolau a chyfrifoldebau cytûn mewn perthynas â'r enwebai (ticiwch lle bo'n briodol).

Yr enwebai

Cyn yr arolygiad	
Ymgyfarwyddo â'r Fframwaith a'r Arweiniad ar gyfer arolygiadau	
Ymgyfarwyddo ag arweiniad Estyn ar rôl yr enwebai	
Ymgyfarwyddo â'r ddogfennaeth arolygu	
Cymryd rhan yn y trafodaethau â'r arolygydd cofnodol yn yr ymweliad cyn-arolygiad	
Mynychu'r cyfarfod tîm cyn-arolygiad	
Gwneud trefniadau gweinyddol ar gyfer yr arolygiad	
Casglu dogfennaeth y mae ei hangen ar gyfer yr arolygiad, fel y bo'n briodol	
Yn ystod yr arolygiad	
Cysylltu â'r arolygydd cofnodol ynghylch trefniadau gweinyddol	
Ymateb i ofynion y tîm am wybodaeth ychwanegol	
Cynorthwyo â datrys unrhyw broblemau sy'n codi	
Cyfrannu at drafodaethau ynghylch nodweddion da a diffygion mewn cyfarfodydd tîm, ond peidio â chymryd rhan weithredol pan fydd graddau'n cael eu dyfarnu	
Bod yn rhagweithiol wrth ddarparu tystiolaeth ychwanegol yn dilyn cyfarfodydd tîm	
Cwblhau FfACau lle bo'n briodol	
Lle bo'n briodol, gofyn i'r tîm arolygu egluro ei farnau	
Ar ôl yr arolygiad	
Cyfrannu at archwilio cywirdeb ffeithiol yr adroddiad drafft	
Chwarae rhan lawn wrth lunio cynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad	

Yr arolygydd cofnodol

Cyn yr arolygiad	
Trafod rôl yr enwebai yn ystod y cyswllt cyntaf â'r Rhwydwaith	
Sicrhau bod yr enwebai yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau yn yr ymweliad cyn-arolygiad	
Rhoi brîff llawn i'r enwebai yn yr un modd ag aelodau tîm eraill ynghylch y trefniadau ar gyfer yr arolygiad	
Cynllunio gwaith yr enwebai yn ystod yr arolygiad	
Sicrhau bod yr enwebai yn cael holl ddogfennau allweddol yr arolygiad	
Briffio aelodau eraill y tîm yn llawn ynghylch rôl yr enwebai	
Yn ystod yr arolygiad	
Monitro gwaith yr enwebai a darparu cynhaliaeth lle bo'n briodol	
Sicrhau bod yr enwebai'n cael ei gynnwys mor llawn ag sy'n bosibl yn yr arolygiad	
Fel rheol, cyfeirio gofynion am wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol at yr enwebai	
Sicrhau nad yw'r enwebai yn cymryd rhan weithredol wrth ddyfarnu graddau	

Y Rhwydwaith

Cyn yr arolygiad	
Sefydlu rôl yr enwebai yn ystod y cyswllt cyntaf â'r arolygydd cofnodol	
Sicrhau bod yr enwebai'n cael ei gynnwys mewn trafodaethau yn yr ymweliad cyn-arolygiad	
Cadarnhau rôl yr enwebai gyda'r arolygydd cofnodol a'r enwebai	
Sicrhau bod yr enwebai yn bresennol yn y cyfarfodydd cyn yr arolygiad	
Yn ystod yr arolygiad	
Defnyddio'r enwebai i gyfathrebu â'r tîm arolygu	
Fel rheol, cyfeirio unrhyw faterion neu bryderon trwy'r enwebai	
Rhoi cymorth i'r enwebai wrth gyflawni eu tasg	
Parchu'r cyfrinachedd y mae'r enwebai yn gweithio ynddo	
Ar ôl yr arolygiad	
Cynnwys yr enwebai wrth wirio cywirdeb ffeithiol yr adroddiad drafft	
Cynnwys yr enwebai wrth lunio'r cynllun gweithredu	

Enw'r enwebai:_____

Llofnod:_____**Dyddiad:**_____

Enw'r arolygydd cofnodol:_____

Llofnod:_____**Dyddiad:**_____

Enw uwch gynrychiolydd y Rhwydwaith 14-19:_____

Llofnod:_____**Dyddiad:**_____

Atodiad 2: Rhwydweithiau 14-19

Rôl y Rhwydweithiau 14-19

Addaswyd o Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19 Cynllun Gweithredu 2003 a diweddariad Ebrill 2006

Bydd y Rhwydweithiau 14-19 yn:

- pennu'r **modd y byddant yn gweithio** i sicrhau dull cydweithredol a strategol gwirioneddol o weithredu holl elfennau allweddol Llwybrau Dysgu 14-19;

- gwneud cyfeiriad priodol yn dangos sut byddant yn cysylltu â chynlluniau perthnasol eraill fel cynllun cyflwyno blynyddol y PPI ac argymhellion blynyddol CCAH;

- adolygu aelodaeth i gynnwys aelodau perthnasol y CCAH yn amodol ar fonitro'r ymgynghoriad nesaf;

- sicrhau ymgysylltu'n gyson ac yn gynhyrchiol â phobl ifanc i ddatblygu darpariaeth sy'n eu **cymell ac yn eu hysbrydoli**;

- dangos sut y bydd **agweddau penodol** ar Gynllun Gweithredu Llwybrau Dysgu (Mawrth 2006) yn cael eu **rhoi ar waith** ar lefel leol;

- sefydlu amserlenni wedi'u cytgordio ac ystyried dulliau eraill o sicrhau **hyblygrwydd i ddysgwyr** yn yr ardal fel 'grwpiau dysgwyr' yn hytrach na 'grwpiau blwyddyn', gweithio y tu allan i'r amserlen wythnosol neu bythefnosol i gynnig diwrnodau neu wythnosau llawn ar gyfer rhaglenni arloesol gan gynnwys mynediad a chludiant;

- dadansoddi dewisiadau sydd eisoes ar gael, datblygu dewisiadau arloesol a datblygu **Dewislen** gydweithredol ar gyfer yr ardal, gan ystyried dewis o fewn pob parth ar gyfer dysgwyr mewn ardaloedd gwledig, dangos mwy o ddewis i ddysgwyr, yn enwedig mewn dewisiadau mwy ymarferol a chymhwysol, ac osgoi dyblygu'r ddarpariaeth;

- creu cyfleoedd – gydag amser wedi'i gynnwys – **i bobl ifanc gael profiadau blasu** – wedi'u hymestyn os oes angen – yn CA3 neu ar ddechrau CA4 cyn gwneud dewisiadau fel rhan o strategaeth gytûn i helpu pobl ifanc i bennu nodau a gwneud dewisiadau yn 14 oed, mewn partneriaeth â chefnogaeth yr Hyfforddwr Dysgu;

- ceisio comisiynu a datblygu darpariaeth mewn **canolfannau hyfforddiant penodol** gan gynnwys canolfannau awdurdodau lleol, darparwyr hyfforddiant preifat a chyfleusterau colegau AB i alluogi mwy o ddisgyblion 14-16 mlwydd oed i gael profiad o ddysgu o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar waith;

- ystyried goblygiadau **iechyd a diogelwch** wrth gynnig profiadau ehangach i ddisgyblion 14-16 mlwydd oed;

- gweithio gyda chyflogwyr, Cynghorau Sgiliau Sector, Gyrfa Cymru, a phartneriaid eraill i ddatblygu **rhaglenni ar gyfer gwaith a chyfranogiad cymunedol** sy'n sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel i bobl ifanc;

- ceisio annog **cyswllt cyflogwyr** a'r nifer sy'n ymgymryd â'r Adduned Sgiliau Sylfaenol a datblygu concordat cyflogwyr;

- ystyried dulliau o fynd i'r afael ag **anghenion hyfforddi darparwyr dysgu** ar lefel leol;

- gweithio gyda'r PPI i greu ac ymestyn **ystod y cyfleoedd a'r profiadau ehangach** i bobl ifanc ddatblygu a defnyddio medrau hanfodol, gan gynnwys profiadau awyr agored a phreswyl;

- gweithio gyda'r PPI i ddatblygu fframwaith cefnogi personol amlasiantaethol i alluogi pobl ifanc i gael mynediad i ystod eang o gefnogaeth y tu fewn a'r tu allan i'r lleoliad dysgu;

- cynllunio gweithredu cefnogaeth **Hyfforddwr Dysgu** ar gyfer pobl ifanc ar sail y rôl sydd wedi'i phennu yn yr arweiniad ac y mae enghreifftiau ohoni yn yr unedau hyfforddi a ddatblygwyd yn 2005. Dylai hyn gynnwys cyfranogwyr ar raglen hyfforddi'r Hyfforddwr Dysgu a staff eraill sy'n gweithio ochr yn ochr â rheiny sy'n dilyn hyfforddiant;

- dangos sut y bydd **darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer opsiynau ehangach** yn yr ardal yn cael ei sicrhau;

- ystyried sut y gall hyblygrwydd a dewis gael eu hymestyn ar gyfer **dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig;**

- rhoi protocolau y cytunwyd arnynt yn eu lle erbyn Medi 2006 ar gyfer y **gefnogaeth ychwanegol** y mae ei hangen i alluogi pobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig ac eraill fel grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gyrchu eu hawl i'r ystod gyfan o gyfleoedd yn eu llwybrau dysgu hwy;

- ystyried a **monitro dewisiadau a chyflawniadau** ar gyfer dysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig ac mewn perthynas â stereoteipio o ran rhyw;

- datblygu **protocolau pontio** ar gyfer dysgwyr sy'n symud o un Hyfforddwr Dysgu i un arall, neu o un lleoliad dysgu i un arall;

- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu **strategaeth gyfathrebu** leol, mewn partneriaeth â'r strategaeth gyfathrebu genedlaethol, i hysbysu'r holl bartneriaid am ddatblygiadau lleol a chenedlaethol; ac

- mewn cydweithrediad agos â'r PPI lleol, llunio **Prosbectws o Weithgareddau ar gyfer myfyrwyr 14-19 mlwydd oed** yn flynyddol gan gynnwys **gweithgareddau dysgu a hamdden** sydd ar y we yn ogystal â rhai sydd wedi'u cyhoeddi.